national **dance**
company **wales**

cwmni **dawns**
cenedlaethol **cymru**

Cwmni Dawns Cenedlaethol Canolfan Mileniwm Cymru
Rhaglen Partneriaid
2020-21

Diolch i chi am eich diddordeb i gael clyweliad ar gyfer ein rhaglen Partneriaid.

Am dros ddegawd, mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru wedi bod yn meithrin rhai o'r dawnswyr mwyaf talentog ledled Cymru ac yn datblygu eu sgiliau.

Wedi eu lleoli yn y Tŷ Dawns, Cartref CDCCymru, mae ein Cymdeithion rhwng 14-19 mlwydd oed yn dilyn rhaglen a grëwyd ein Prif Ddawnsiwr Dysgu gydag arweiniad gan ein tim Artistig. Yn ystod y flwyddyn, mae ein rhaglen Gymdeithion yn canolbwyntio ar wella sgiliau creadigol a thechnegol, ynghyd â datblygu gwaith ar gyfer cyfleoedd perfformio y mae'r Cwmni yn eu creu drwy gydol y flwyddyn.

Mae gennym nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael a dewisir ymgeiswyr llwyddiannus drwy glyweliad. Mae'r clyweliad yn cynnwys dosbarth techneg gyfoes lle gall dawnswyr gymryd y cyfle i berfformio eu sgiliau i Arbenigwyr dawns ein cwmni.

Mae Partneriaid NDCWales yn darparu lefel uchel o hyfforddiant cyfoes ar gyfer dawnswyr ifanc. Mae sesiynau'n rhedeg ar ddydd Sul yn ystod y tymor (amserlen ysgolion Cymru) o 10.30am i 12.30pm ac maen nhw'n cael eu haddysgu gan Ddawnswyr y Cwmni ac artistiaid gwadd.

Fel rhan o'r rhaglen Partneriaid, byddwch yn cael;

- Asesiadau ac arweiniad gan ein Prif Ddawnsiwr Dysgu

- Mae cyfleoedd creu a pherfformio ychwanegol ar gael i'r rhai hynny sydd â diddordeb.

Mae'r rhaglen Partneriaid yn dechrau am £420 y flwyddyn am ddosbarthiadau hyfforddiant cyfoes wythnosol a'r Cwrs Dwys Lles Dawnswyr. Mae modd ychwanegu pecyn Wythnos Creu ychwanegol am £175. Cyfanswm y swm sy'n daladwy £595

(Rydym yn ceisio sicrhau nad yw arian yn rhwystr i bobl ifanc talentog rhag cymryd rhan yn y Rhaglen Gymdeithion. I'r diben hwnnw, mae dwy fwrsariaeth ar gael eleni ar gyfer hyfforddiant wythnosol a'r Wythnos Greu.

Gyda bwrsariaeth un, byddwch angen talu £210 am yr holl ddosbarthiadau hyfforddiant cyfoes wythnosol a'r Diwrnodau Lles Dawnsiwr. *Bydd y pecyn Wythnos Greu opsiynol yn costio £75 ychwanegol. (Cyfanswm o £285)*

Gyda bwrsariaeth dau, byddwch angen talu £50 am yr holl ddosbarthiadau hyfforddiant cyfoes wythnosol a'r Diwrnodau Lles Dawnsiwr. Bydd y pecyn Wythnos Greu opsiynol yn costio £20 ychwanegol. (Cyfanswm o £70)

Bydd ceisiadau am fwrsariaeth yn cael eu hasesu yn seiliedig ar anghenion ariannol neu dystiolaeth o rwystrau neu anfantais i gael gafael ar hyfforddiant dawns. Dyfernir y rhain ar ôl

trafod pob cais. (Gofynnir am dystiolaeth). Cysylltwch â Guy O'Donnell, Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogiad am ffurflen gais am fwrsariaeth neu ragor o fanylion, e-bostiwch guy@ndcwales.co.uk Cyfeiriad post, Y Tŷ Dawns, Canolfan Mileniwm Cymru, Stryd Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 4PH

Cynhelir clyweliadau ar ddydd Sul 7 Ebrill. Noder na allwn gynnig dyddiad clyweld arall. Dylai'r holl ymgeiswyr fod yn Gymraeg neu wedi eu lleoli yng Nghymru.

Mae Cymdeithion y gorffennol wedi mynd ymlaen i hyfforddi yn Trinity Laban, Northern School of Contemporary Dance, London School of Contemporary Dance, Tring Park, Bird School a mwy. Mae rhai wedi dychwelyd atom fel Prentisiaid neu Ddawnswyr Cwmni.

Gweithgaredd	Dyddiad cau
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	Dydd Gwener 1 Mai
Clyweliadau cymdeithion	Dydd Sadwrn 08 Awst
Dewis cymdeithion ac anfon llythyrau allan	Dydd Gwener 14 Awst
Dyddiad cau bwrsariaethau	Dydd Gwener 28 Awst
Tymor 2019-20 yn dechrau	Dydd Sul 27 Medi

Amserlen

Nodwch y gallai'r amser hon newid cyn dechrau'r rhaglen. Bydd rhaglen derfynol ar gael wedi i chi gael eich derbyn yn llwyddiannus.

Mae'r rhaglen Partneriaid yn gystadleuol iawn ac rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau. Rydym yn cynnig rhaglen lawn i ymgeiswyr llwyddiannus a fydd yn helpu i feithrin a thyfu eu talent a rhoi trosolwg gwirioneddol iddynt i'r byd dawns proffesiynol. Rydym yn gwybod fod llawer o'n Partneriaid yn brysur a dyma pam rydym yn ceisio rhoi ein dyddiadau wythnosol a dyddiadau'r wythnos creu ymlaen llaw er mwyn i chi wybodaeth beth yw eich disgwyliadau presenoldeb.

Os oes gan aelod anaf parhaus neu os yw presenoldeb aelod wedi gostwng o dan 60% dros nifer o wythnosau. Byddwn yn trafod gyda'r person ifanc a ddylent barhau ac efallai y byddwn yn penderfynu tynnu'r lle yn ôl a'i gynnig i ddawnsiwr arall

Tymor 1

Sesiwn	Dyddiad	Amser
Sesiwn 1	27 Medi 2020	10.30am-12.30pm
Sesiwn 2	4 Hydref 2020	10.30am-12.30pm
Sesiwn 3	11 Hydref 2020	10.30am-12.30pm
Sesiwn 4	18 Hydref 2020	10.30am-12.30pm
Wythnos Creu	25 Hydref – 29 Hydref	10.30am-17.00
Sesiwn 5	8 Tachwedd 2020	
Sesiwn 6	15 Tachwedd 2020	10.30am-12.30pm
Sesiwn 7	22 Tachwedd 2020	10.30am-12.30pm
Ymarferion/Perfformiadau Youth Dance Showcase	28/29 Tachwedd 2020	10.30-9.00pm
Sesiwn 8	06 Rhagfyr	10.30am-12.30pm
Sesiwn 9	13 Rhagfyr	10.30am-12.30pm

Tymor 2

Sesiwn	Dyddiad	Amser
Sesiwn 10	10 Ionawr 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 11	17 Ionawr 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 12	24 Ionawr 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 13	31 Ionawr 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 14	7 Chwefror 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 15	14 Chwefror 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 16	21 Chwefror 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 17	28 Chwefror 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 18	7 Mawrth 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 19	14 Mawrth 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 20	21 Mawrth 2021	10.30am-12.30pm
Sesiwn 21	28 Mawrth 2021	10.30am-12.30pm

Wythnos Creu

Mae'r Wythnos Creu yn gyfle i ddatblygu a chreu darn newydd o waith gyda choreograffydd enwog sydd wedi gweithio gyda phrif gwmni NDCWales o'r blaen. Fel y nodwyd yn gynharach mae ffi ychwanegol yn daladwy ar gyfer cymryd rhan yn yr Wythnos Greu. Cynhelir wythnos greu eleni yn ystod hanner tymor mis Hydref.

Y bwriad yw perfformio darn Wythnos Greu eleni yn Ystafell Las y Tŷ Dawns fel rhan o'r Arddangosfa Ddawns Ieuenctid ac mewn o leiaf un lleoliad allanol arall.

Nid ydym wedi cadarnhau Coreograffydd Wythnos Greu eleni eto.